**Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona**

**Cyfarfod Rhithwir ar blatfform Teams, dydd Mawrth 22 Mehefin 2021, am 12:30**

1. **Yn bresennol:**

Senedd Cymru – Welsh Parliament
Huw Irranca Davies – Cadeirydd, Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur, Ogwr)
Peredur Owen Griffiths – Aelod o'r Senedd (AS) (Plaid Cymru)
James Evans – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)
Natasha Asghar – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)
Mark Isherwood – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)
Jack Harries – staff cymorth Vikki Howells, Aelod o'r Senedd
Ryland Doyle – staff cymorth Mike Hedges, Aelod o'r Senedd
Dr Lee Gonzalez – staff cymorth Joel James, Aelod o'r Senedd
Ioan Bellin – staff cymorth Rhys ab Owen, Aelod o'r Senedd
Gareth Williams – staff cymorth Alun Davies, Aelod o'r Senedd
Andrew Bettridge – Uwch-swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AS

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'u staff
Alun Michael – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chadeirydd Plismona Cymru
Jeff Cuthbert – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Cerith Thomas – Cynghorydd, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Prif Gwnstabliaid a'u staff
Pam Kelly – Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent, a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru
Paul Morris – Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu
Lynda Young – Uned Gyswllt yr Heddlu, Ysgrifennydd y Grŵp

Gwahoddedigion
Gary Haggaty – Dirprwy Gyfarwyddwr – Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

2. **Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan egluro ei fod ar hyn o bryd yn dirprwyo ar ran John Griffiths, gan nad oedd ef yn gallu cadeirio'r cyfarfod y tro hwn.

Dywedodd y Cadeirydd, gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona yng Nghymru yn y Chweched Senedd, fod angen gweithredu ar amryw o faterion ffurfiol, sef ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd. Nododd, fodd bynnag, nad oedd ethol Is-gadeirydd yn weithred orfodol.

Ethol Cadeirydd
Cafodd John Griffiths AS ei enwebu i fod yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona gan yr Aelodau o'r Senedd a ganlyn:

- Peredur Owen Griffiths – Aelod o'r Senedd (AS) (Plaid Cymru)
- James Evans – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)
- Natasha Asghar – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach.

Cafodd John Griffiths AS (Llafur) ei ethol i fod yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona

Ethol Is-gadeirydd
Enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona

Cafodd Huw Irranca Davies (AS) (Llafur) ei enwebu gan James Evans (AS) (Ceidwadwyr). Cefnogwyd yr enwebiad hwn gan Natasha Asghar (AS) (Ceidwadwyr) a Peredur Owen Griffiths (AS) (Plaid Cymru).

Diolchodd Huw Irranca Davies i'r Aelodau am ei enwebu. Fodd bynnag, pwysleisiodd y ffaith ei bod yn bwysig cael Is-gadeirydd o blaid wleidyddol wahanol, gan nodi na ddylai diffyg profiad yn y Senedd atal unrhyw Aelod rhag cadeirio un o'r Grwpiau Trawsbleidiol.

Gohiriwyd y cam o benodi Is-gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

Ethol Ysgrifenyddiaeth
Cafodd Lynda Young ei henwebu i fod yn Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona gan:

- James Evans – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)
- Natasha Asghar – Aelod o'r Senedd (AS) (Ceidwadwyr)

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach.

Cafodd Lynda Young ei hethol yn Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona.

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Aelodau newydd a'r rhai a gafodd eu hailethol yn yr etholiad ym mis Mai, ynghyd â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn sgil ar eu llwyddiant yn yr etholiadau hynny. Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona, gan nodi ei fod yn grŵp diddorol iawn oherwydd y drefn blismona yng Nghymru. Soniodd am ddiogelwch cymunedol a'r mentrau y mae lluoedd yn ymwneud â hwy, fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trais a cham-drin domestig, yn ogystal â gwasanaethau cymorth i bobl sy'n agored i niwed. Nododd fod rhyngweithio go iawn yn digwydd, nid yn unig yng nghyd-destun y materion a gedwir yn ôl ond hefyd o ran yr hyn a wneir yng Nghymru. Yn ogystal,

tynnodd sylw at y profiadau a gafwyd yn sgil datganoli, a’r modd y mae pethau'n cael eu gwneud yn wahanol yng Nghymru.

Cyflwynodd y Cadeirydd Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru; a Pam Kelly, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent. Esboniodd mai nod y cyfarfod oedd rhoi cyfle i Aelodau o’r Senedd drafod Plismona yng Nghymru a’r berthynas â gwasanaethau datganoledig, ac i gael trosolwg o’r dirwedd Blismona yng Nghymru.

3. **Alun Michael – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Llongyfarchodd Alun Michael yr Aelodau newydd eu hethol a’r rhai a gafodd eu hail-ethol. Yna, cyflwynodd Jeff Cuthbert, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent; Pam Kelly, Prif Gwnstabl Gwent; a Paul Morris, Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu.

Nodwyd y byddai Pam Kelly, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd presennol Grŵp Prif Swyddogion Cymru, ac Alun Michael, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd presennol y Grŵp Plismona yng Nghymru, yn rhoi cyflwyniad ar y cyd.

Dywedodd Alun Michael fod pethau’n cael eu gwneud yn wahanol yng Nghymru, a bod Gweinidogion, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gweinidog Cyfiawnder a’r Arglwydd Ganghellor wedi tynnu sylw at y sefyllfa hon mewn sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys sylw i’r perwyl ei bod yn ymddangos bod pobl yn cydweithio’n well yng Nghymru.

Cafodd Andrew Dunbobbin ei ethol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd Gogledd Cymru. Ynghyd â’r tri Chomisiynydd a gafodd eu hailethol, roedd yn croesawu’r syniad o ymgysylltu ag Aelodau’r Senedd yn y dyfodol.

Mae rôl Plismona yng Nghymru a Deddf Diwygio'r Heddlu 2011 yn golygu bod Llywodraeth y DU wedi creu dwy gorfforaeth undyn ar gyfer pob heddlu. Un ohonynt yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sydd â'r cyfrifoldeb dros bolisi cyffredinol, cyllideb, a phenodi a diswyddo'r Prif Gwnstabl. Y llall yw'r Prif Gwnstabl ei hun. Mae rôl y Prif Gwnstabl yn cael ei gwarchod yn y gyfraith fel rôl annibynnol sy’n gyfrifol am arwain yr heddlu, am ddarpariaeth weithredol gwasanaethau plismona, ac am gyflawni holl rwymedigaethau statudol a chyfreithiol swyddfa'r Prif Gwnstabliaid, a chydymffurfio ag unrhyw Gynlluniau Llywodraethu sy'n pennu trefniadau llywodraethu’r heddlu.

Mae'r wyth gorfforaeth undyn (4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a’r 4 Prif Gwnstabl) wedi bod yn cydweithio'n hyderus dros yr wyth mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, maent wedi creu Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru at ddibenion ymgysylltu a chydweithio â Llywodraeth Cymru. Mae’r Prif Weinidog wedi derbyn gwahoddiad gan sefydliad Plismona yng Nghymru i Gadeirio'r Bwrdd. Mae’r llwyfan hwnnw wedi bod yn hynod ddefnyddiol a chadarnhaol, gan roi cyfle i bartneriaid eraill gael eu cynnwys, er enghraifft Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy’n gwneud gwaith pwysig iawn ym maes Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â chyrff eraill fel y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am lunio Cynllun Heddlu a Throsedd sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer yr heddlu. Pwysleisiodd Alun Michael fod yn rhaid i heddluoedd ymdrin â nifer o faterion eraill, ac y dylai'r Cynlluniau Heddlu a Throsedd gydnabod pwysigrwydd y gofyniad plismona strategol a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref.  Nododd hefyd y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r 8 corfforaeth undyn wedi datblygu ffordd o gydweithio ar ddiogelwch cymunedol sydd â'r nod o alluogi ein cymunedau i fod yn fwy diogel ac i deimlo'n hyderus.  Mae penderfyniad polisi a wnaed yn wreiddiol gan Carl Sergeant, ac a ddatblygwyd yn fwy diweddar o ganlyniad i waith rhwng yr heddluoedd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi arwain at greu Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel.  Y bwriad bellach yw ceisio sefydlu Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, lle gall pob partner ddysgu a datblygu gyda'i gilydd, gan gynnwys y 22 awdurdod lleol a'r 4 heddlu yng Nghymru. Mae gweithgareddau'r Partneriaethau Cymunedau Mwy Diogel yn ategu gwaith Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Mae corff Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn cynnwys yr holl asiantaethau sy'n gwneud gwaith cyfiawnder troseddol, megis yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Llysoedd a'r Gwasanaethau Prawf yng Nghymru. Nid oes unrhyw un o'r cyrff hyn wedi'u datganoli, ond maent yn gweithredu mewn amgylchedd datganoledig.

Tynnodd Alun Michael sylw at y ffaith bod Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi creu amgylchedd lle mae cydnabyddiaeth bod pethau'n wahanol yng Nghymru, a lle mae ymdrech yn cael ei wneud i wneud pethau'n well drwy gydweithio. Er enghraifft, mae gwasanaeth y llysoedd, gan weithio ar y cyd â'r comisiynwyr, wedi creu lleoliadau lle gall tystion roi tystiolaeth o bell, gyda phwyslais penodol ar dystion sy'n agored i niwed. Golyga hyn nad oes gofyn i'r tystion hynny fynd i'r llys, sy'n gallu bod yn amgylchedd prysur a bygythiol.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid at ddibenion cynyddu nifer y lleoedd lle gall tystion roi tystiolaeth o bell, ac mae'r cam hwn yn gysylltiedig â'r gwaith a wneir gyda dioddefwyr trais a cham-drin domestig.

Bu'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn ystyried a ddylid datganoli Cyfiawnder Troseddol a Phlismona yng Nghymru.  Ar ddechrau'r gwaith hwnnw, dywedodd yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd na ddylid dechrau'r gwaith drwy siarad am ddatganoli. Yn hytrach roedd am ddechrau drwy nodi'r hyn y byddai creu system Cyfiawnder Troseddol effeithiol ac effeithlon i Gymru yn ei olygu.  Pwysleisiwyd y ffaith mai'r nod - a hynny heb ymyrryd yn y ddadl - yw sicrhau bod y system sydd ar waith yng Nghymru, p'un a yw wedi'i datganoli neu beidio, mor effeithiol â phosibl i'r cyhoedd sy'n cael y gwasanaethau hyn.

4. **Pam Kelly – Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent**

Cyflwynodd Pam Kelly ei hun, gan nodi ei bod yn cynrychioli pedwar Prif Gwnstabl Cymru fel Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru.  Llongyfarchodd Pam Kelly yr Aelodau newydd eu hethol a'r Aelodau a gafodd eu hail-ethol. Dywedodd Pam Kelly fod Prif Swyddogion yn mwynhau perthynas waith dda ag Aelodau o'r Senedd ledled

Cymru, a phwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel. Tynnodd sylw at argyfwng COVID fel enghraifft o sefyllfa lle defnyddiwyd dull cyson o gyfathrebu a chynnal deialog ledled Cymru, gan ei bod yn bwysig peidio â thanseilio negeseuon ein gilydd wrth gadw cymunedau yn ddiogel.

Nododd Pam Kelly rai o'r llwyddiannau eraill, gan gynnwys gweithio gyda'n gilydd trwy gydol argyfwng COVID, ymateb ar y cyd ag awdurdodau lleol, a chydweithio'n agos â gweithwyr iechyd, gwasanaethau plismona, a gwasanaethau tân ac ambiwlans, wrth ymateb i argyfwng COVID a cheisio sicrhau adferiad. Mae'r elfennau a ganlyn yn bwysig: cydweithio yng nghyd-destun gorfodi, ymateb i beryglon mewn cymdeithas, ceisio sicrhau hyder y cyhoedd wrth gynnal cyfreithlondeb, yn ogystal â bod yn gymesur ond peidio â bod yn or-eiddgar wrth sicrhau bod cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel. Bydd y perthnasoedd hynny sydd wedi datblygu yn parhau i fodoli yng Nghymru.

O ran diogelwch cymunedol a phartneriaethau, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn atal problemau lleol ac yn ymateb iddynt. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o faterion lleol, a siawns y byddant yn ymgysylltu â'u gwasanaethau plismona lleol a'u hawdurdodau lleol. Ethos diogelwch cymunedol yw bod atal yn well na gwella. Mae cydweithio wedi cyflawni mwy o ran yr ymateb a'r gwaith atal hwnnw.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru ac wedi cytuno i ariannu 100 o swyddogion pellach. Mae hyn yn sicrhau bod presenoldeb plismona gweladwy yn ein cymunedau, ac mae'r swyddogion hyn yn ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys cymunedau anodd eu cyrraedd. Maent hefyd yn rhoi cyngor ynghylch atal troseddu, yn targedu mannau problemus o ran troseddu, ac yn casglu gwybodaeth. Mae sicrhau presenoldeb gweladwy yn ein cymunedau, gan gydweithio'n aml â swyddogion awdurdodau lleol, yn arwain at greu cymunedau cynhwysol a chydlynol ledled Cymru, sy'n rhywbeth nad yw cydweithwyr yn Lloegr yn elwa arno.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu rhaglen swyddogion yr heddlu ar gyfer ysgolion Cymru. Mae hwn yn gynllun pwysig iawn sy'n helpu cenedlaethau'r dyfodol. Fel rhan o'r cwricwlwm, mae Swyddogion yr Heddlu yn mynd i ysgolion er mwyn meithrin perthynas â phobl ifanc a chymunedau. Maent yn dilyn dull rhagweithiol o weithredu, gan drafod gwaith ataliol sy'n ymwneud â dinasyddiaeth, ymddygiadau gwrthgymdeithasol, a seiberddiogelwch. Maent hefyd yn sôn am waith adweithiol mewn meysydd fel camddefnyddio sylweddau neu broblemau eraill sy'n codi mewn cymunedau, ac yn ceisio meithrin perthnasoedd iach ar gyfer y dyfodol. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r rhaglen ysgolion yn ganolog i'r broses o hyrwyddo'r perthnasoedd hynny yn ein cymunedau ac i'r broses o adeiladu ar gyfer y dyfodol ledled Cymru.

Cyfeiriodd Pam Kelly at y gwaith y soniwyd amdano eisoes ynghylch materion diogelu, plant sydd yn nalfa'r heddlu, a'r rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r gwaith hwn, sy'n ceisio atal y cylch troseddu, i'w weld mewn llawer o'n cymunedau ledled Cymru. Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn y mae heddluoedd yn ceisio ei gyflawni, fel bod pawb yn y

Senedd a phawb yn y cymunedau dan sylw ar yr un donfedd, ni waeth pa bleidiau y maent yn aelodau ohonynt.

Mae’r cydweithio sy’n digwydd mewn perthynas â deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru wedi parhau. Mae hyn yn cynnwys cydweithio agos â Llywodraeth Cymru ynghylch dileu'r amddiffyniad o gosb resymol, sef y Bil gwahardd smacio.  Unwaith eto, o ran yr agenda ataliol, roedd bod ar y droed flaen o ran sicrhau bod terfyn yn cael ei roi ar gosbi plant yn gorfforol, a bod cymorth cymesur yn cael ei ddarparu i rieni, yn dangos y gwaith sy’n cael ei wneud mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ledled Cymru.

Gan nodi'r pryderon sy’n bodoli ynghylch y cynnydd a welir o ran achosion o’r amrywiolion, nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau, wrth i’r cyfyngiadau ym maes iechyd cyhoeddus ddechrau cael eu llacio, fod pawb ar yr un dudalen, fel gwasanaeth cyhoeddus, o ran natur yr heriau sy’n ein hwynebu.  Mae plismona eisoes wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau, gyda galwadau ‘999’ a ‘101’ wedi cynyddu 22 y cant yn y 4 mis diwethaf.  Mae gwasanaethau plismona eisoes yn gweld effaith llacio’r cyfyngiadau o ran galwadau sy’n ymwneud ag iechyd meddwl, trais ac ymddygiadau sy’n cael eu hatal mewn rhai cymunedau, ac mae'r Heddlu'n gweithio'n agos iawn â phartneriaid er mwyn lliniaru hyn.

Yn ardal heddlu Gwent yn unig, bu dros 100 o brotestiadau yn ystod y 10 mis diwethaf – rhai ohonynt yn fach ond rhai â niferoedd uchel iawn hefyd.  Bu cynnydd mewn cynulliadau o bobl ifanc, gyda rhai ohonynt yn arwain at ymddygiadau gwrthgymdeithasol a thrais, fel yr hyn a welwyd yn ardal Mayhill yn Abertawe. Gofynnwyd i'r Aelodau osgoi neidio i unrhyw gasgliadau pellach o ran yr hyn yr oeddent wedi’i weld ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar gyfryngau eraill. Gofynnwyd iddynt ymgysylltu â'u comanderiaid lleol gan ei bod yn bwysig sicrhau bod pawb yn gweithio gyda llais unedig, gan gefnogi ein cymunedau gyda'i gilydd, yn enwedig yn ystod cyfnod pan fo’r galw yn uchel.  Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, mae’r galw’n cynyddu ar draws yr holl wasanaethau, ac mae angen i bawb fod yn ymwybodol o hyn.

Yn sgil effaith COVID ar yr economi, disgwylir cynnydd yn y lefelau o droseddu, a disgwylir i’r ardaloedd sydd eisoes yn ddifreintiedig gael eu taro galetaf.  Mae gwaith ataliol eisoes ar y gweill o ran edrych ar y ffyrdd gorau o blismona a rheoli cymunedau wrth i’r cyfyngiadau gael eu llacio.

Am gyfnod o flwyddyn a hanner, mae'r economi gyda'r nos wedi bod yn destun cyfyngiadau llym. Bydd hyn yn newid wrth i dafarndai a chlybiau ailagor, wrth i ddigwyddiadau wedi'u trefnu gael eu cynnal, ac wrth i bobl ifanc ymgynnull ar strydoedd a thraethau. Mae canfyddiadau’r gymuned yn bwysig yn y cyd-destun hwn, gan nad yw'r sefyllfaoedd hyn yn golygu bod pobl yn troseddu. Mae'n bwysig deall sut mae'r heddlu a'r gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i ymgysylltu â'r bobl ifanc dan sylw.

Mae Operation Uplift yn rhaglen gan Lywodraeth y DU i sicrhau cynnydd o 20,000 mewn nifer Swyddogion yr Heddlu dros gyfnod o 3 blynedd.  Yng nghyd-destun Cymru, byddai hyn yn golygu 200 o swyddogion ar gyfer Heddlu Gwent a Heddlu Gogledd Cymru, ychydig yn llai na 200 o swyddogion ar gyfer Heddlu Dyfed Powys,

a thua 400 o swyddogion ar gyfer Heddlu De Cymru.  Er bod hyn yn newyddion gwych, y pryder yw y bydd y gweithlu ym maes plismona yn un ifanc a dibrofiad iawn. Mae heddluoedd eisoes yn gweld rhai heriau sy’n gysylltiedig â phensiynau. Mae aelodau profiadol o'r gweithlu yn gadael yr heddlu, ac mae heddluoedd yn gweithio'n galed i geisio deall pa fylchau o ran sgiliau fydd yn bodoli ym maes plismona yn y dyfodol.

Disgwylir i wasanaethau plismona leihau lefelau troseddu 20 y cant mewn rhai ardaloedd targed dros y ddwy flynedd nesaf, ac mae heddluoedd yn gweithio'n galed i gyflawni’r gostyngiad hwn. Fodd bynnag, mae’n bwysig sylweddoli bod gwneud hynny'n anodd gyda gweithlu ifanc, dibrofiad, gan fod heddluoedd yn ceisio gwella sgiliau staff yn gyflym iawn.  Yn yr heddluoedd yng Nghymru, mae’n bosibl y bydd niferoedd Swyddogion yr Heddlu yn destun cap o ganlyniad i’r broses o recriwtio swyddogion o dan Operation Uplift, gan fod y prinder sgiliau i’w weld yn rhannol ym maes staff yr heddlu, fel troseddu seiber, twyll a gwaith fforensig digidol. Mae heddluoedd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd o ran nifer y swyddogion, yn sgil yr angen i fuddsoddi rhai adnoddau mewn sgiliau ac nid mewn niferoedd yn unig.

5. **Alun Michael – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Dywedodd Alun Michael fod llawer o lwyddiant i'w nodi. Fodd bynnag, tynnodd sylw at rai pryderon ynghylch y negeseuon a gaiff eu mynegi gan y Llywodraeth ganolog. Nododd fod y dyheadau yn debyg iawn, ond efallai nad yw'r modd o’u cyflawni yn debyg.  Croesawodd Alun Michael y pwyslais a roddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar wella'r modd y mae pobl sy’n dioddef trais rhywiol yn cael eu trin, gan gydnabod bod y bobl hynny wedi cael cam yn aml iawn yn y gorffennol.  Yng Nghymru, nid yw’r ffigurau eto wedi cyrraedd y lefelau y dymunir eu gweld, ond maent ychydig yn well na’r rhifau mewn nifer o rannau eraill o’r DU.  Fel y soniwyd yn flaenorol, mae gwaith Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru eisoes wedi dechrau, gyda phenaethiaid Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymgysylltu ag Uwch Swyddogion yr Heddlu ar ffyrdd o wella'r gwasanaeth.

Pwysleisiodd Alun Michael y ffaith bod trechu tlodi ac anghydraddoldeb, a’r problemau sydd wrth wraidd troseddu ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol, y tu hwnt i faes plismona. Serch hynny, gall y sector plismona weithio gydag eraill er mwyn ceisio mynd i’r afael â’r problemau hyn.  Fel enghraifft, tynnwyd sylw at y penderfyniad a wnaed, drwy’r Bwrdd Plismona yng Nghymru, i sicrhau bod y sector plismona yng Nghymru, yn hytrach na llunio cynllun cydraddoldeb hiliol, yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun ei strategaeth ar ymdrin â chydraddoldeb hiliol. Penderfynwyd y dylid ysgrifennu at y Prif Weinidog er mwyn nodi’r bwriad hwn. Yn ogystal, ysgrifennodd Amy Rees, sef Cadeirydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, at y Prif Weinidog yn nodi dull tebyg o weithredu.  Mae hyn yn dangos y cydweithio sy’n digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff nad ydynt wedi’u datganoli, Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Phlismona yng Nghymru.

Mae newid ein ffyrdd o fyw a gweithio yn her fawr, ond os na fyddwn yn gwneud newidiadau, byddwn yn sicr o ailadrodd rhai o'r problemau yr ydym eisoes wedi'u

gweld yn aml.  Mae sicrhau bod heddluoedd yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar yn uchelgais a rennir gan y Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Mae gwasanaethau plismona yng Nghymru, drwy gynllun Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, wedi datblygu rhaglen ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) er mwyn deall effaith trawma ac yna ceisio ei lliniaru.  O ganlyniad i hyn, gellir gweld bod pedwar profiad niweidiol neu fwy yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn camddefnyddio sylweddau, cyffuriau ac alcohol, y tebygolrwydd y bydd yn cyflawni trais ac yn dioddef trais, ac yn sicr y tebygolrwydd y bydd yn mynd i'r carchar. Pwysleisiodd Alun Michael fod rheswm da iawn i'r sector plismona ddeall yr hyn sydd wrth wraidd troseddu, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw hyn yn syniad newydd ym maes plismona. Nododd fod Syr Robert Peel wedi dweud mai cyfrifoldeb cyntaf yr heddlu oedd atal troseddu, a bod llwyddiant ym maes plismona i'w weld yn absenoldeb unrhyw droseddau, nid y ffaith bod gweithredu yn digwydd.

Mae'r bartneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn un bwysig iawn ar gyfer plismona, gan ganolbwyntio'n gychwynnol ar drafodaethau megis yr hyn a olygir gan fabwysiadu dull Iechyd y Cyhoedd tuag at droseddu.

1. Mae'n golygu deall yr hyn sydd wrth wraidd y mater, a'r hyn y gellir ei wneud i'w atal.
2. Mae hefyd yn golygu deall natur halogiad a lledaeniad.

Eglurodd Alun Michael fod pob un ohonom yn deall halogiad a lledaeniad yng nghyd-destun y pandemig diweddar.  Fodd bynnag, os oes problem mewn un ardal, pam fod y broblem honno yn cael ei hefelychu mewn ardal arall?  Mae'r sector plismona wedi gweld achosion o drais mewn cymunedau ac mewn digwyddiadau cyhoeddus, ond sut mae'r achosion hyn wedi lledaenu i ardaloedd a chymunedau eraill? Nid ydym eto'n deall yr ateb i hynny.

Mae syniadau pwerus iawn i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cyfleoedd pwysig yng nghyd-destun pobl ifanc, materion amgylcheddol a'r cysylltiadau rhwng meysydd polisi cyhoeddus gwahanol. Mae cydweithio â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Grŵp Cymunedau Mwy Diogel yn arwain at gyfleoedd i wneud y cysylltiadau hyn ac at syniadau o ran sut i greu cymunedau hyderus sy'n fwy diogel.

Mae gwaith plismona yn golygu bod swyddogion yn ymateb i alwadau i fod yn y rheng flaen, ac i roi eu hunain mewn perygl wrth ymdrin ag amgylchiadau sy'n aml yn anrhagweladwy ac yn beryglus iawn. Mae swyddogion yn ymuno â'r heddlu nid yn unig i ymateb i'r sefyllfaoedd hyn ond hefyd i atal y niwed hynny yn y dyfodol. Mae buddsoddi at ddibenion atal niwed yn eithaf anodd mewn sefyllfa lle mae adnoddau'r sector Plismona eisoes o dan bwysau o ganlyniad i'r angen i ymateb i heriau o ddydd i ddydd.  Fodd bynnag, mae'r wyth gorfforaeth undyn yn ceisio cyflawni hyn drwy gydweithio ledled Cymru.  Nid yw gwaith ataliol mor ddramatig â'r ymatebion a'r gweithgarwch plismona sy'n gorfod digwydd, ond mae'r ddwy elfen hon yn gwbl hanfodol.

Dyna pam y gallwn ni, drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyrff eraill nad ydynt wedi'u datganoli ond sy'n ennyn rhywfaint o gydnabyddiaeth gynyddol yn Whitehall, a hefyd gyda Gweinidogion yn Llywodraeth y DU, sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel ac yn hyderus. Edrychwn ymlaen at weithio gydag Aelodau o'r Senedd, gan ein bod i gyd yn chwarae rhan yn yr uchelgais fawr o wneud ein gorau ar ran y cyhoedd.

6. **<u>Cwestiynau a thrafodaeth</u>**

**<u>Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd</u>**

Gofynnodd Huw Irranca-Davies gwestiwn yn ymwneud â hyder y cyhoedd yng nghyd-destun diogelwch cymunedol, sydd wedi bod yn ymgyrch bwysig yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd. Soniodd am Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, cyfarfodydd gwreiddiol PACT (yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd), a'r broses o ddod ag awdurdodau lleol, cynghorwyr, Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ynghyd er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar gymunedau. Gofynnodd am sylwadau ynghylch llwyddiant – neu ddiffyg llwyddiant – yr ymdrechion a wneir i ymgysylltu â chymunedau ar lawr gwlad. Nododd fod ei ganfyddiad ef wedi bod yn gyson ers blynyddoedd, sef bod y sefyllfa'n amrywio'n helaeth ar lawr gwlad, gyda rhai yn gwneud yn arbennig o dda tra bod eraill yn ei chael hi'n anodd sicrhau unrhyw gynnydd.

Soniodd hefyd am gydweithio trawsffiniol, sy'n elfen sylfaenol o'r hyn y mae plismona yng Nghymru yn ei olygu. Mae'n bosibl y bydd y sector Plismona am dynnu sylw Aelodau hen a newydd o'r Senedd at y sefyllfa hon er mwyn rhoi darlun llawn o blismona.

**<u>Alun Michael – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru</u>**

Pwysleisiodd Alun Michael effaith y cyfryngau cymdeithasol. Er bod y cyfryngau hyn wedi gwella ein cysylltedd wrth i ni eu defnyddio i gyfathrebu mewn ffyrdd amrywiol bob dydd, mae rhai problemau ynghlwm wrth eu defnyddio, sef y gallu i gynhyrfu pobl a threfnu cynulliadau o bobl, fel y gwelwyd gyda phrotestiadau a gynhaliwyd ar risiau'r Senedd, ynghyd â threfnu rêfs a digwyddiadau fel y rhai a welwyd ym Mayhill. Yn gyntaf, mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi cael effaith ar weithgarwch sydd wedi achosi difrod mewn cymunedau ac wedi arwain at weithgareddau sydd, mewn gwirionedd, yn droseddau. Yn ail, maent wedi rhoi camargraff o'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr heddlu a chymunedau lleol. Er enghraifft, mae gan yr heddlu berthynas dda â chymunedau yn ardal y dociau, Butetown, ond ni fyddech yn cael yr argraff honno pe byddech yn edrych ar y newyddion neu ar gyfryngau cymdeithasol. Er ei bod yn briodol herio rhai o'r pethau sy'n cael eu dweud yn y cyfryngau, mae angen sicrhau cydbwysedd.

Wrth bwysleisio gweithgarwch ataliol ar lefel leol, nid oes modd anwybyddu'r cam-fanteisio sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun masnachu mewn pobl, na phwysigrwydd y frwydr yn erbyn terfysgaeth, a throseddau difrifol a chyfundrefnol. Cyfeiriodd Alun Michael at Lynne Owens, Pennaeth yr Asiantaeth Troseddu

Cenedlaethol, sydd bob amser yn nodi, wrth siarad am ei gwaith, fod y gwaith y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei wneud yn bwysig i'w gwaith hi hefyd.

**<u>Pam Kelly – Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent</u>**

Nododd Pam Kelly fod y 4 heddlu ledled Cymru, yn ddiamau, wedi cydweithio'n agos iawn, a bod pob un o'r 43 o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr wedi gwneud hynny hefyd. Felly, mae'r rhyngweithio sydd ei angen i fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys llinellau cyffuriau, eisoes yn bodoli. Pan ddaeth y materion ym Mayhill i'r amlwg, anfonodd Heddlu Gwent swyddogion i gynorthwyo ar unwaith, a hynny heb yr angen i wneud cais amdanynt. Yn yr un modd, anfonwyd swyddogion i Gasnewydd i ymdrin â materion tebyg yno. Mae heddluoedd yn cysylltu â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol at ddibenion casglu gwybodaeth ledled Cymru a Lloegr. Maent yn defnyddio cudd-wybodaeth ryngwladol, yn ogystal â chudd-wybodaeth y DU, er mwyn ceisio lliniaru troseddau cyfundrefnol difrifol.

Pwysleisiwyd y ffaith ei bod yn bwysig bod swyddogion cymunedol lleol yn atal troseddau, ond hefyd yn casglu gwybodaeth at ddibenion ceisio atal troseddau cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, mae heddluoedd yn mynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol bob dydd, ac mae heddlu Gwent wedi rhoi mwy o droseddwyr o dan glo mewn perthynas â throseddau cyfundrefnol difrifol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf nag yn y 4 blynedd flaenorol. Drwy wneud hynny, maent wedi cymryd cyffuriau a drylliau oddi ar strydoedd ein cymunedau, ac wedi diogelu unigolion sy'n agored i niwed a rhai sy'n destun masnachu mewn pobl.

Y peth gwaethaf y gallwn ei wneud yng Nghymru yw meddwl nad yw hyn yn digwydd yn ein cymdogaethau ni. Os ydym yn ymwybodol ohono ac yn effro yn ei gylch, gallwn rannu'r wybodaeth honno a byddwn mewn sefyllfa well i'w atal.

Mae diogelwch cymunedol yn well mewn rhai ardaloedd nag eraill, ac mae'n bwysig sicrhau bod diogelwch cymunedol a strwythur cymunedau ar frig yr agenda wrth siarad am waith ataliol. Mae diogelwch cymunedol wrth wraidd materion sy'n ymwneud ag ymddygiadau gwrthgymdeithasol a welir ar lefel leol, yn ogystal â chamddefnyddio cyffuriau a'r diwylliant gangiau sy'n dod i'r amlwg. Fel gweision cyhoeddus, ni waeth a ydym mewn maes datganoledig ai peidio, mae'r nod yr un peth, ac mae modd ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**<u>Jeff Cuthbert – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent</u>**

Un o'r prif bethau sy'n effeithio ar gymunedau, busnesau, a phobl yn gyffredinol ar hyn o bryd, ond nad oedd yn bodoli tua 15-20 mlynedd yn ôl, yw effaith technoleg seiber ar weithgarwch troseddol. Nid oes categori ar gyfer seiberdroseddu yn ôl y Swyddfa Gartref. Mae'r ffigurau ar gyfer troseddau sy'n dibynnu'n llwyr ar dechnoleg seiber yn ganran gymharol isel, sef tua 5 y cant. Ond, wrth edrych ar droseddau fel twyll neu ddelweddau anweddus o blant, gwelwn fod canran sylweddol ohonynt yn gysylltiedig â thechnoleg seiber – rhwng 40 y cant a 50 y cant o'r holl droseddau. Felly, mae hwnnw'n fater hanfodol i'w ystyried wrth drafod Plismona cymdogaeth. I

lawer o bobl, mae’r seiberofod bellach yn rhan o'u cymdogaeth, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid cael swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i nodi troseddau yn y seiberofod ac i gymryd y camau cywir yn eu cylch. Yn gysylltiedig â hynny, wrth gwrs, y mae’r angen i fuddsoddi mewn addysg fel y rhaglen ysgolion, fel bod pobl yn ymwybodol o faterion seiber ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd er mwyn diogelu eu hunain rhag cael eu twyllo. Mae natur troseddu yn newid, ac mae hyn yn effeithio ar ein cymdogaethau. Felly, mae'n rhaid i ni i gyd fod yn ymwybodol o’r newidiadau hyn a’u deall.

7. **Sylwadau i gloi – Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod, gan nodi bod y cyflwyniad yn drosolwg gwych o’r dirwedd blismona a diogelwch cymunedol, a’r prif faterion wrth symud ymlaen.

Llongyfarchodd HID John Griffiths ar gael ei ethol yn Gadeirydd, a llongyfarchodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd am gael eu hailethol neu eu hethol am y tro cyntaf. Diolchodd HID i'r teulu Plismona ehangach am ei holl waith caled yn ystod y pandemig, ac am gyflawni ei fusnes arferol o ddydd i ddydd. Diolchodd i Aelodau o’r Senedd am ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.30.